# A oedd eich pensiwn yn hen Gynllun Pensiwn Dur Prydain? Efallai bod arian yn ddyledus i chi os gwnaethoch chi drosglwyddo allan.

Mae cyflwyno hawliad gyda FSCS yn hollol am ddim a chyfrinachol.

Rydym yn deall y gall cyflwyno eich hawliad Pensiwn Dur Prydain ymddangos yn broses ddychrynllyd. Rydym yma i'ch helpu chi bob cam o'r ffordd ac i sicrhau bod y broses mor syml â phosibl.

Cam 1:
**Cysylltwch a chyflwyno hawliad**

**Y ffordd hawsaf i gyflwyno hawliad yw trwy ein gwefan.**

Crëwch gyfrif ar-lein a gallwch gadw eich cynnydd os bydd arnoch angen ei orffen yn nes ymlaen. Byddwn yn dweud wrthych pa wybodaeth sydd arnom ei hangen i gefnogi eich hawliad. Ar ôl cyflwyno eich hawliad, gallwch wirio statws eich hawliad ar unrhyw amser.

Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur, ffoniwch ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid neu anfonwch e-bost atom (gweler y manylion isod) i ofyn am ffurflen gais bapur.

Cam 2:
**Byddwn ni'n casglu ac adolygu'r dystiolaeth**

**Cyn gynted ag y byddwn yn derbyn eich cais, bydd yn cael ei ddyrannu i swyddog trin hawliadau penodedig.**

Bydd yr unigolyn yma yn cysylltu â chi i chi gael gwybod am beth y gofynnir gan Gynllun Pensiwn Dur Prydain.

Mae hyn yn cynnwys faint o bensiwn yr oeddech wedi ei gronni a gwybodaeth am y pensiwn y cynghorwyd chi i'w drosglwyddo iddo.

Cam 3:
**Byddwn yn asesu eich hawliad ac yn cyfrifo unrhyw iawndal**

**Ar ôl i ni gael digon o wybodaeth, byddwn yn ystyried a oedd y cyngor i drosglwyddo pensiwn a gawsoch yn addas.**

Os byddwn yn canfod bod y cyngor yn anaddas, byddwn yn cyfrifo faint o arian yr ydych wedi ei golli a faint y gallwn ni ei dalu i chi dan ein rheolau a chyfyngiadau iawndal.

Cam 4:
**Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r canlyniad ac yn talu unrhyw iawndal**

**Os gallwn ni dalu iawndal i chi, byddwch yn derbyn yr arian trwy drosglwyddiad neu siec - p'run bynnag sydd orau gennych fel y nodir ar eich cais.**

Byddwch hefyd yn derbyn llythyr yn esbonio ein penderfyniad a sut y cyfrifwyd unrhyw iawndal.

## Manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth

- Sgwrs ar-lein (Dydd Llun – Gwener 9am – 5pm, ac eithrio gwyliau cyhoeddus)
- 0800 678 1100 (Dydd Llun – Gwener, 9am – 5pm, ac eithrio gwyliau cyhoeddus)
- Defnyddiwch ein ffurflen gyswllt ar-lein neu anfonwch e-bost atom yn: enquiries@fscs.org.uk
- Financial Services Compensation Scheme, PO Box 300, Mitcheldean GL17 1DY
- Mae rhagor o wybodaeth am y broses hawlio ar gael ar ein gwefan